


JOHN, MARY HANNAH ('May') (1874 - 1962), cantores a diwygwraig



Enw: Mary Hannah John
Dyddiad geni: 1874
Dyddiad marw: 1962
Rhiant: Morgan John
Rhiant: Mary John (née James)
Rhyw: Benyw
Galwedigaeth: cantores a diwygwraig
Maes gweithgaredd: Crefydd; Cerddoriaeth
Awdur: David Pike

Ganwyd May John yn 4 Stryd Canning, Tonpentre, Cwm Rhondda ar 26 Ionawr 1874, y chweched o saith o blant Morgan John (1841-1909), rheolwr siop sgidiau, a'i wraig Mary (g. James, 1840-1930). Roedd y teulu'n aelodau selog o Gapel Jerusalem y Methodistiaid Calfinaidd, lle roedd Morgan John yn flaenor. Roeddent hefyd yn deulu cerddorol, a dechreuodd May ganu'n ifanc iawn gyda'r Gobeithlu yn Jerusalem.

Dechreuodd May John ganu'n gystadleuol yn ddeuddeg oed, a gwnaeth ei marc yn syth mewn eisteddfodau lleol yng Nghwm Rhondda. Cafodd wersi i gychwyn gan yr arweinydd côr Taliesin Hopkins (1859-1906) o'r Cymer, ac wedyn gan **Clara Novello Davies** yng Nghaerdydd. Yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd yn 1893, enillodd gystadleuaeth y deuaud soprano gan ganu 'Quis est homo?' o 'Stabat Mater' Rossini gydag Elsie Drinkwater, un arall o ddisgyblion Clara Novello. Yn sgil y llwyddiant hwn cafodd May John wahoddiad i gymryd rhan yn Eisteddfod Ffair y Byd yn Chicago yr un flwyddyn, lle'r enillodd y gystadleuaeth soprano. Bu'n teithio'r Unol Daleithiau wedyn gydag chôr arobryn Clara Novello, a chafodd wahoddiadau i gymryd swyddi canu o fri yn Efrog Newydd a San Francisco, ond fe'u gwrthododd er mwyn aros yng Nghymru.

Yn Chwefror 1894 roedd May John yn un o bedwar o gantorion o Gôr Brenhinol Cymru a ganodd gerbron y Frenhines Victoria yn Osborne House. Aeth ymlaen i astudio yn yr Academi Gerddoriaeth Frenhinol yn Llundain yn 1894 ac enillodd ddwy fedal pan gwblhaodd ei chwrs yn 1896. Canodd yn y Cyngerdd Cenedlaethol Cymreig yn Neuadd y Frenhines yn Llundain yn 1896, ac mewn nifer o oratorios ac eisteddfodau yn ystod y blynyddoedd dilynol.

Pan ddechreuodd y Diwygiad yn 1904, cymerodd May John seibiant o'i gyrfa broffesiynol er mwyn canu mewn cyfarfodydd yng Nghymru a Lloegr. Canodd yn Nhonpentre, lle gweithiodd gydag **Evan Roberts** am y tro cyntaf, ac wedyn ym Mhontypridd. Erbyn mis Rhagfyr, roedd yn gweithio yng Nghaerdydd gydag Annie M. Rees o Gorseinon, yr ifancaf o gantorion y Diwygiad ac aelod o grŵp gwreiddiol **Evan Roberts**, a bu'r ddwy'n arwain cyfarfodydd diwygiadol eu hunain. Roedd May yn adnabyddus yn y cyfnod hwn am ei 'llais soprano diwylliedig', a byddai hefyd yn pregethu'n angerddol a grymus gan annog merched i 'ddod ymlaen gan fod llawer o waith iddynt na allai'r dynion mo'i wneud.'

Yn Ionawr 1905 roedd May John yn gweithio yng ngogledd Cymru gyda'r gweinidog Methodistaidd ifanc W. Llewelyn Lloyd. Bu ym Mryste wedyn gyda **John Cynddylan Jones**, gan gydarwain cyfarfodydd yng nghapel Wesleiaidd Broadmead. Gweithiodd yno hefyd gyda Thomas 'Awstin' Davies, gohebydd blaenllaw y Diwygiad.

Erbyn Mai 1905, roedd May John yn aelod o garfan fawr o ddiwygwyr yn teithio o Gymru i Lundain. Aeth i ogledd Cymru eto ym Mehefin 1905, lle cymerodd ran yn un o gyfarfodydd awyr agored mwyaf y Diwygiad pan ddaeth cynulleidfao o 6,000 i glywed Evan Roberts yn pregethu o lwyfan pren mewn cae ger Rhosneigr. Roedd May yn dal i weithio dros y Diwygiad mor hwyr â mis Tachwedd 1905.

Ar ôl i'r Diwygiad ddod i ben, ailgydiodd May yn ei gyrfa fel cantores am gyfnod yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel Mawr, gan weithio yn ei bro gynefin yn bennaf. Pan fu farw ei thad yn 1909, symudodd May a'i chwaer Celia i 2 Stryd Faenor yn y Porth i ofalu am eu mam. Bu May John farw yno ar 18 Hydref 1962, yn 88 oed. Mae'r ffaith na chafwyd ysgrif goffa iddi yn y *Rhondda Leader* yn arwydd bod y gantores wych hon yn anghofiedig erbyn hynny. Fe'i claddwyd ym medd y teulu ym mynwent Llethrdu, Trealaw.

Awdur

David Pike

Ffynonellau

Noel Gibbard, *Fire on the altar: a history and evaluation of the 1904-05 Revival in Wales* (Bridgend 2005)

Brynmor Pierce Jones, *Voices from the Welsh revival: an anthology of testimonies, reports, and eyewitness statements from Wales's year of blessing, 1904-05* (Bridgend 1995)

Karen Lowe, *Carriers of the Fire: The Women of the Welsh Revival 1904/05* (Llanelli 2004)

Eisteddfod Chicago, *Y Tyst*, 29 Medi 1893, t.11

Chicago Eisteddfod: Success of a Rhondda Valley Vocalist, *The Pontypridd chronicle and workman's news*, 29 Medi 1893, t.8

Papur Pawb, 28 Medi 1901

Revival Leaders: Miss May John, R.A.M., *Evening Express*, 23 Ionawr 1905, t.3

'Extraordinary Revival Singers' (2) May John

Delweddau

LIGC: Miss May John, R.A.M. (Soprano) genedigol o Ton, Rhondda

Miss May John, *The Pontypridd chronicle and workman's news*, 15 Rhagfyr 1893, t.1

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q106465424

Dyddiad cyhoeddi: 2021-09-27

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Pike, D., (2021). JOHN, MARY HANNAH ('May') (1874 - 1962), cantores a diwygwraig. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c12-JOHN-HAN-1874>

CC BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LIGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Nodi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government